OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 3171 (Cy.284) (C.144)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - 12 Rhagfyr 2008

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 83(5)(a) o'r Ddeddf Iechyd 2006(**1**).

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd 2006.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y diwrnod penodedig ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud â goruchwylio a rheoli cyffuriau a reolir

2. 13 Rhagfyr 2008 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol y Ddeddf—

(a) Pennod 1 o Ran 3 o'r Ddeddf fel y mae'n gymwys o ran Cymru, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym(**2**); a

(b) adrannau 76, 77 a 78 i'r graddau y maent yn ymwneud â thramgwyddau o dan Bennod 1 o Ran 3 (gan gynnwys tramgwyddau a grëir mewn rheoliadau o dan y Bennod honno).

(**1**) 2006 p.28. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Iechyd 2006 (p.28) ("y Deddf") i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) I'r graddau y mae unrhyw darpariaeth yn y Ddeddf yn rhoi pŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau neu'n diffinio unrhyw ymadrodd sy'n berthnasol wrth arfer unrhyw bŵer o'r fath wedi dod i rym pan basiwyd y Ddeddf yn rhinwedd adran 83(1)(e) o'r Ddeddf.

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

12 Rhagfyr 2008

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Y Gorchymyn hwn yw'r ail Orchymyn Cychwyn sy'n cael ei wneud o dan Ddeddf Iechyd 2006 ("Deddf 2006"). Mae'n dwyn i rym Bennod 1 o Ran 3 o Ddeddf 2006 o ran Cymru. Mae'n cynnwys mesurau ynghylch rheoli a defnyddio cyffuriau a reolir yn ddiogel mewn sefydliadau iechyd a gofal penodol. Yn benodol, mae'n darparu ar gyfer penodi swyddogion atebol y mae'n rhaid iddynt sicrhau bod gan gyrff penodedig drefniadau priodol ar gyfer trafod cyffuriau a reolir yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mae'n cynnwys dyletswyddau o gydweithredu rhwng cyrff cyfrifol a hawliau i gael mynediad ac i archwilio mangreoedd perthnasol.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn Cychwyn canlynol wedi'i wneud o dan Ddeddf Iechyd 2006 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru:

Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/204 (Cy.18) (C.9)).

Mae'r Gorchmynion Cychwyn canlynol wedi'u gwneud o dan Ddeddf Iechyd 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd o ran Cymru a Lloegr:

Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) 2006 (O.S. 2006/2603 (C.88)),

Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 2) 2006 (O.S. 2006/3125 (C.108)) (mae rhannau ohono hefyd yn ymwneud â'r Alban),

Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 3) 2007 (O.S. 2007/1375 (C.57)).

Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 5) 2008 (O.S. 2008/1972 (C.96)).

Mae'r Gorchymyn Cychwyn canlynol wedi'i wneud o dan Ddeddf Iechyd 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd o ran Lloegr a'r Alban:

Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 4) (O.S. 2008/1147 (C.50)).

Y ddarpariaeth	*Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adrannau 1 i 3	2 Ebrill 2007 (o ran Cymru) a 1 Gorffennaf 2007 (o ran Lloegr)	2007/204 (Cy.18) (C.9) 2007/1375 (C.57)
Adran 4	1 Gorffennaf 2007 (o ran Lloegr)	2007/1375 (C.57)
Adran 5	2 Ebrill 2007 (o ran Cymru)	2007/204 (Cy.18) (C.9)
Adran 5 (heblaw adran 5(4))	1 Gorffennaf 2007 (o ran Lloegr)	2007/1375 (C.57)
Adran 5(4)	1 Gorffennaf 2007 (o ran Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon)	2007/1375 (C.57)